Hybu Cig Cymru
Meat Promotion Wales

# Bwletin y Farchnad HCC

Chwefror 2018

Mae'r data trwybwn gan Defra ar gyfer 2018 yn adlewyrchu effaith y tywydd eithafol a gafwyd yn ystod y flwyddyn. Bydd Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych ar gynhyrchu cig coch yn 2018.

## CIG EIDION A CHIG LLO




Yn ôl y ffigyrau diweddaraf gan Defra, cafodd 1,994,000 o wartheg dethol eu lladd yn 2018, sef 14,400 (0.7%) yn fwy nag yn 2017. Roedd cyfansoddiad y gwartheg hyn yn debyg i'r hyn oedd yn 2017 - sef 51% o fustych, 39% o heffrod a 10% o deirw ifainc. Roedd pwysau carcasau'r heffrod, sef 330.4kg (+ 0.4kg) yn debyg i'r hyn oedd yn 2017, ond cafwyd newid sylweddol ym mhwysau'r bustych a theirw ifainc. Gwelwyd y cynnydd mwyaf ymhlith y teirw ifainc; roedd cyfartaledd eu pwysau yn 333.6kg, sef 7.0kg yn drymach nag yn 2017, a 6.5kg yn drymach nag yn 2016. Roedd y bustych hefyd yn drymach nag yn 2017, gan bwyso 368.5kg (+ 1.6kg), ond roedden nhw'n 3.9kg yn ysgafnach nag yn 2016.

Lladdwyd 695,200 o wartheg llawn dwf yn 2018, sef cynnydd o 33,700 (+ 5.1%) mewn cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol. Er bod ystadegau Defra yn awgrymu fod y buchesi cig eidion magu (1,558,000) a llaeth (1,883,000) yn llai nag yn y blynyddoedd blaenorol, lladdwyd mwy o wartheg llawn dwf. Mae'n debygol taw'r rheswm am hyn oedd bod cynhyrchwyr yn cael gwared ar anifeiliaid anghynhyrchiol oherwydd prinder porfwyd yn dilyn y tywydd eithafol yn 2018. Roedd cyfanswm y cig eidion a chig llo a gynhyrchwyd yn y DU yn 922,600 tunnell fetrig. Mae hyn yn 17,900 tunnell fetrig (2.0%) yn fwy nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd, a'r cynnyrch uchaf er 2011.

## CIG DEFAID




Roedd nifer yr ŵyn a laddwyd yn 2018 yn 12.8 miliwn – sef 504,300 (3.8%) yn llai nag yn 2017. Awgrymir bod sawl rheswm am hyn, gan gynnwys y ffaith fod llai o ŵyn ar gael yn 2018. Roedd maint y ddiadell ŵyn yn 2018 yn 16.9 miliwn o anifeiliaid, sef, 2.3% yn llai nag yn 2017 ond yn debyg i 2016 pan oedd y nifer yn 16.8 miliwn. O ganlyniad, roedd disgwyl y byddai llai o ŵyn yn cael eu lladd yn 2018 nag yn 2017, ac roedd y ffigyrau yn y diwedd yn debyg i 2016 (-0.4%). Hefyd, mae adroddiadau gan y diwydiant yn awgrymu fod amodau'r tywydd yn ystod y 12 mis diwethaf wedi golygu cyfnod wyna anodd. Roedd yr ŵyn yn arafach yn tyfu wedyn ac roedden nhw'n hwyrach yn cael eu marchnata.

Y pwysau cyfartalog ar gyfer carcasau ŵyn yn 2018 oedd 19.3kg, sef 0.1kg yn ysgafnach nag yn 2017, ond 0.1kg yn drymach nag yn 2016. Er gwaethaf amodau anffafriol ar gyfer tyfiant glaswellt ddechrau'r gwanwyn a'r haf y llynedd, nid oedd pwysau'r carcasau'n rhy isel. Awgrymir taw'r rheswm tebygol am hyn oedd bod cynhyrchwyr wedi rhoi mwy o borthiant i'r ŵyn, ac roedd tystiolaeth o hyn yn yr ŵyn gordew a anfonwyd i'w lladd.


Er y cafodd llai o ŵyn eu hanfon i'w lladd nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd, cafwyd cynnydd o 2.5% (39,900 o anifeiliaid) yn niferoedd y mamogiaid a hyrddod difa a laddwyd mewn lladd-dai yn y DU. Y rheswm tebygol am y cynnydd hyn yw bod cynhyrchwyr am gael gwared ar anifeiliaid nad oedd eu hangen. Roedd yna 172,000 yn llai o famogiaid magu ar y ffermydd yn 2018 mewn cymhariaeth â 2017. Cynhyrchwyd 288,600 tunnell fetrig o gig defaid yn y DU yn 2018, sef 10,800 tunnell fetrig (3.6%) yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol. Am fod llai o lawer o ŵyn wedi eu lladd yn lladd-dai'r DU, cynhyrchwyd llai o gig oen yn ystod y flwyddyn.

## CIG MOCH





Lladdwyd 10.7 miliwn o foch heb fagu yn 2017, sef 2.5% (257,500 o anifeiliaid) yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol, ond rhywbeth yn debyg (-5%) i 2016. Roedd pwysau cyfartalog y carcasau yn ystod y flwyddyn, sef 83.3kg, tua'r un fath, ac felly mae'n dal i fod y pwysau trymaf am ddegawdau ar gyfer moch heb fagu. Mae hyn yn brawf o'r modd y mae'r sector wedi ceisio defnyddio gwell geneteg i wella perfformiad. Hefyd, lladdwyd mwy o hychod a baeddod yn lladd-dai'r DU, sef 258,800 (+9.4%) nag yn 2017, ond roedd y carcasau (137.9 kg) yn 2.3kg yn ysgafnach. Er gwaethaf hyn, cynhyrchwyd 926,700 tunnell fetrig o gig moch yn ystod y flwyddyn, sef 24,000 tunnell fetrig (3.0%) yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol.

# Gwartheg




Roedd prisiau gwartheg dethol ar ddechrau 2019 yn is nag yn y flwyddyn flaenorol, gan ddilyn y duedd a fu. Cynhyrchwyd mwy o gig eidion na'r flwyddyn flaenorol ym mis Rhagfyr am y cafodd mwy o heffrod a theirw llawn dwf eu lladd yn ystod y mis. Roedd trwybynnau'r holl wartheg yn 2018 yn 1.8% yn uwch nag yn 2017, ac o'r herwydd cynhyrchwyd 2.0% yn fwy o gig eidion a chig llo.

**Prisiau'r farchnad yng Nghymru a Lloegr**; roedd y pris cyfartalog ar gyfer gwartheg dethol yn 187.6c/kg yn yr wythnos ddiweddaraf yn diweddu 26 Ionawr, sef 0.7c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol. Er bod prisiau gwartheg dethol wedi tueddu i fod yn is na'r flwyddyn flaenorol yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae'r prisiau'n dal i fod yn uwch nag yn 2017 ac yn dilyn patrymau tymhorol. Mae adroddiadau gan y diwydiant yn awgrymu taw'r rheswm tebygol am y prisiau is ar hyn o bryd yw bod mwy o wartheg yn cael eu marchnata, er bod y galw ym mis Ionawr yn llugoer. Yn ystod yr wythnos yn diweddu 26 Ionawr, cafwyd cynnydd o 1.8c i 185.7c/kg ym mhrisiau bustych a chynnydd o 0.3p i 176.1c/kg ym mhrisiau teirw ifainc. Cafwyd gostyngiad o 0.6c. i 196.6c/kg ym mhrisiau heffrod.





**Prisiau pwysau marw yng Nghymru a Lloegr**; yn ystod yr wythnos yn diweddu 26 Ionawr, cafwyd cynnydd yn y pris pwysau marw yng Nghymru a Lloegr ar gyfer pob math o wartheg dethol. Roedd y cynnydd mwyaf, o 2.1c i 318.7c/kg, ar gyfer teirw ifainc. Cafwyd cynnydd o 1.3c i 348.2c/kg ar gyfer bustych, a chynnydd o 0.6p i 347.4c/kg. ar gyfer heffrod. Mae pris pwysau marw bustych ar hyn o bryd yn 4.2c (1.2%) yn is nag oedd yn yr wythnos gyfatebol flwyddyn yn gynharach.

**Roedd nifer yr holl wartheg a laddwyd mewn lladd-dai yn y DU** yn 209,970 ym mis Rhagfyr. Er bod hyn yn 16.8% yn llai nag yn y mis blaenorol, roedd cyfanswm y trwybynnau (-0.1%) yn debyg i'r mis cyfatebol flwyddyn yn gynharach.


Cafwyd gostyngiad hefyd i 71,800 tunnell fetrig yng nghyfanswm cynnyrch cig eidion a chig llo ym mis Rhagfyr, ond roedd yn 0.3% yn uwch nag ym mis Rhagfyr 2017.

Roedd trwybwn yr holl wartheg rhwng Ionawr a Rhagfyr 2018 yn 2.7 miliwn o anifeiliaid. Mae hyn yn 1.8% yn fwy na chyfanswm y trwybwn yn 2017, a 1.3% yn fwy nag yn 2016. Fel canlyniad, cynhyrchwyd 922,600 tunnell fetrig o gig eidion a chig llo yn 2018, sef 2.0% yn fwy nag yn 2017, a 1.2% yn fwy nag yn 2016.




Gwartheg dethol oedd dros 73% o'r holl wartheg a laddwyd ym mis Rhagfyr, er bod y trwybwn yn 15.4% yn is nag ym mis Tachwedd. Cafwyd y gostyngiad mwyaf (17.3%) yn nifer y teirw ifainc (12,300 o anifeiliaid). Lladdwyd 79,600 o fustych (-15.7%) a 62,200 o heffrod (-14.5%). Wrth ystyried 12 mis 2018, roedd trwybynnau'r gwartheg dethol yn 2.0 miliwn o anifeiliaid, sef 0.7% yn fwy nag yn 2017, a 1.0% yn fwy nag yn 2016. Gwartheg dethol oedd 74% o'r holl wartheg a laddwyd yn ystod y flwyddyn, a bustych oedd dros hanner y gwartheg dethol. Lladdwyd 54,500 o fuchod llawn dwf a 1,400 o deirw yn ystod mis Rhagfyr, sef llai nag yn y mis blaenorol. Ar gyfer 2018 gyfan, cafwyd cynnydd sylweddol yn nhrwybwn buchod a theirw llawn dwf mewn cymhariaeth â 2017, sef cynnydd o 5.1% i 695,200. Mae'n debygol fod hyn yn adlewyrchu'r nifer fawr o wartheg a laddwyd am fod porfwyd yn brin yn ystod y flwyddyn.

# Defaid





Roedd masnach yr ŵyn pwysau byw yn dda ar ddiwedd 2018, a pharhaodd felly ddechrau Ionawr eleni. Er gwaethaf cynnydd o 11% o'r naill flwyddyn i'r llall yn nhrwybynnau mamogiaid a hyrddod difa ym mis Rhagfyr, cynhyrchwyd llai o gig defaid nag yn y flwyddyn flaenorol am y cafodd llai o dipyn o ŵyn dethol eu lladd.

**Prisiau'r farchnad yng Nghymru**; Roedd pris cyfartalog ŵyn hen dymor SQQ yn y marchnadoedd da byw yn yr wythnos yn diweddu 26 Ionawr yn 195.1c/kg, sef 2.5c yn uwch nag yr wythnos flaenorol. Roedd y pris hwn yn 13.4c yn uwch nag oedd yn y cyfnod cyfatebol y flwyddyn flaenorol. Ers dechrau'r flwyddyn mae prisiau'r ŵyn yn y marchnadoedd da byw wedi gwella. Wrth gymharu wythnosau cyfatebol yn y blynyddoedd diwethaf, mae prisiau ŵyn yn uwch nag y buon nhw er 2012. Mae adroddiadau gan y diwydiant yn awgrymu taw'r rheswm am hyn yw bod llai o ŵyn ar werth. Hyd yma, gwerthwyd llai o ŵyn hen dymor yn 2019 yn y marchnadoedd da byw nag yn 2018. Yn yr wythnos yn diweddu 26 Ionawr, gwerthwyd 13,800 o ŵyn hen dymor ym marchnadoedd da byw Cymru, sef 2.7% yn llai nag yn yr wythnos gyfatebol flwyddyn yn gynharach. Y rheswm tebygol am y gostyngiad yn nifer yr ŵyn sy'n cael eu gwerthu yw bod llai o ŵyn ar y ffermydd yng Nghymru oherwydd y cyfnod wyna anodd a gafwyd y llynedd.

Mae'r prisiau am famogiaid difa yn ystod wythnosau cyntaf Ionawr yn debyg i'r hyn oedden nhw yn y blynyddoedd diwethaf. Yn ystod yr wythnos yn diweddu 26 Ionawr, cafwyd cynnydd o £1.10 i £48.80, sef 10c yn fwy nag yn yr wythnos gyfatebol y flwyddyn flaenorol.

**Prisiau ŵyn dethol (SQQ) ym marchnadoedd da byw Cymru**





**Prisiau pwysau marw ym Mhrydain**; Yn yr wythnos yn diweddu 26 Ionawr, roedd prisiau'r ŵyn yn 430.4c/kg, sef 1.3c yn is na'r wythnos flaenorol. Mae'r prisiau wedi tueddu i fod yn uwch nag yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn gynharach ers dechrau'r flwyddyn. Roedd y pris yn yr wythnos yn diweddu 26 Ionawr bron 15c yn uwch nag yn yr wythnos gyfatebol yn 2018. Rhywbeth yn debyg yw'r patrwm ag yw ar gyfer prisiau yn y marchnadoedd da byw.

**Nifer yr holl ddefaid a laddwyd mewn lladd-dai yn y DU**; 1,331,900 ym mis Rhagfyr. Mae hyn yn 2.9% yn is nag ym mis Tachwedd ac yn 5.8% yn is nag yn y mis cyfatebol flwyddyn yn gynharach. Lladdwyd 14.4 miliwn o ddefaid drwy gydol 2018, sef 464,400 (3.1%) yn llai nag yn 2017.


Roedd nifer yr ŵyn dethol a laddwyd ym mis Rhagfyr yn 1,184,400, sef 96,700 (1.5%) yn llai nag yn y mis cyfatebol y flwyddyn flaenorol a 3.4% yn llai nag ym mis Tachwedd. Roedd trwybynnau'r ŵyn dethol yn 2018 yn 12.8 miliwn, sef bron 4% yn is nag yn 2017, ond yn debyg i'r hyn oedden nhw yn 2017 (-0.4%). Cafodd llai o ŵyn eu geni yn y DU yn 2018.

**Lladd ŵyn dethol yn y DG**




Yn wahanol i'r ffigyrau ar gyfer ŵyn dethol, lladdwyd mwy o dipyn o famogiaid a hyrddod difa yn lladd-dai'r DU ym mis Rhagfyr nag yn y mis cyfatebol y flwyddyn flaenorol (+11.2%) . Roedd y nifer hefyd yn 1.2% yn uwch nag ym mis Tachwedd. Roedd trwybwn y defaid difa wedi bod yn gyson uchel yn ystod 2018; y ffigyrau a gofnodwyd ar gyfer mis Rhagfyr oedd y trydydd uchaf ar gyfer 2018 (ar ôl misoedd Awst a Hydref). Fel canlyniad, roedd cyfanswm niferoedd y mamogiaid a hyrddod difa a laddwyd yn 2018 yn 39,900 (2.5%) yn uwch nag yn 2017. Cynhyrchwyd 26,500 tunnell fetrig o gig defaid ym mis Rhagfyr, sef 3.0% yn llai nag ym mis Tachwedd a 3.9% yn llai nag yn y mis cyfatebol y flwyddyn flaenorol. Am y cafodd llai o ŵyn dethol eu lladd yn 2018, roedd cyfanswm y cig defaid a gynhyrchwyd y llynedd yn 288,600 tunnell fetrig, sef 10,800 tunnell fetrig (3.6%) yn llai nag yn 2017.


# Moch




Yn ystod wythnosau cyntaf 2019 mae'r pris pwysau marw cyfartalog ym Mhrydain ar gyfer yr holl foch wedi aros yn is nag oedd y llynedd. Er gwaethaf hyn, roedd trwybwn y mochyn heb fagu ym mis Rhagfyr yn debyg i'r hyn ydoedd yn y mis cyfatebol flwyddyn yn gynharach. Cynhyrchwyd mwy o gig moch yn 2018 nag mewn unrhyw flwyddyn oddi ar 2000.

**Prisiau pwysau marw ym Mhrydain**; Roedd prisiau'r holl foch (manyleb yr UE) yn 144.9c/kg yn yr wythnos yn diweddu 12 Ionawr, sef 0.9c yn is na'r wythnos flaenorol. O'i gymharu â'r wythnos gyfatebol flwyddyn yn gynharach, mae'r pris ar hyn o bryd yn 6.5c (4.3%) yn is. Mae'r patrwm o brisiau is a gafwyd ar ddiwedd 2018 wedi para yn ystod wythnosau cyntaf mis Ionawr. Fel arfer mae'r farchnad foch yn gymedrol ar ôl cyfnod o wyliau, ac felly mae'n debygol taw llai o alw sy'n gyfrifol am y prisiau is.

**Pris Cyfartalog Moch (Manyleb yr UE) ym Mhrydain**





Wrth ystyried 2018 yn gyfan, ni chafwyd fawr o newid yn y fasnach pwysau marw. Yn ystod wythnos olaf 2018, cafwyd pris pwysau marw isaf y flwyddyn, sef 146.0c/kg. Roedd pris uchaf y flwyddyn, sef 153.2c/kg, yn yr wythnosau yn diweddu 2 a 21 Gorffennaf, yn ddim ond 7.2c yn uwch na hyn. Hyd yma yn 2019, mae'r prisiau wedi bod yn is, er bod disgwyl i'r sefyllfa wela wrth i'r alw gynyddu adeg y Pasg.

**Prisiau perchyll ym Mhrydain**; roedd y pris cyfartalog am berchyll 30kg yn £47.59 yr anifail yn yr wythnos yn diweddu12 Ionawr, sef 0.3c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol. O'i gymharu â blwyddyn yn ôl, mae hyn yn ostyngiad o 14%. Yn yr un wythnos, cafwyd cynnydd o 0.9c i £36.96 y mochyn ym mhris perchyll 7kg o'i gymharu ag wythnos yn gynharach - er bod y pris hwn yn 12.6% yn is na blwyddyn yn ôl.

**Yr holl foch a laddwyd yn lladd-dai'r DU**; lladdwyd cyfanswm o 851,700 ym mis Rhagfyr, sef 12.6% yn llai nag yn y mis blaenorol. Mewn cymhariaeth â'r mis cyfatebol flwyddyn yn gynharach, roedd y trwybynnau yn debyg (+0.1%). Am y cafodd llai o foch eu lladd yn ystod y mis, cynhyrchwyd 13.4% yn llai o gig moch yn ystod mis Rhagfyr nag a wnaed ym mis Tachwedd. Roedd cyfanswm y cynnyrch ar gyfer y mis yn 71,900 tunnell fetrig, sef 0.9% yn fwy nag ym mis Rhagfyr 2017.

Yn 2018, lladdwyd 10.7 miliwn o foch, sef 2.5% yn fwy nag yn 2017. Mae hyn yn debyg i'r sefyllfa yn 2016 (-0.5%) Roedd y niferoedd a laddwyd yn uwch o'r naill flwyddyn i'r llall yn ystod sawl mis yn 2018. Am fod y carcasau'n drymach yn ystod y flwyddyn, cynhyrchwyd 2.7% yn fwy o gig moch (cyfanswm o 926,700 tunnell fetrig) nag yn 2017. Ni chafodd cymaint o gig moch ei gynhyrchu yn y DU oddi ar 2000, pan gynhyrchwyd 923,100 tunnell fetrig.

**Lladd moch heb fagu yn y DG**




Lladdwyd 834,800 o foch heb fagu yn lladd-dai'r DU ym mis Rhagfyr, sef 800 (0.1%) yn fwy nag ym mis Rhagfyr 2017, a 12.3% yn llai nag yn y mis blaenorol. Lladdwyd 16,900 o hychod a baeddod yn ystod mis Rhagfyr. Mae hyn yn 2.3% yn fwy nag yn y mis cyfatebol flwyddyn yn gynharach.